Y Ni, y Bobl

Maniffesto di-lol UKIP ar gyfer
etholiadau Cynulliad Cymru, 2011

0800 587 6 587

ukipwales.org


heddiw
ASau
materion
heddlu
gas
di-lol
uniongyrchol
Brwsel
diben
mis
iechyd
gallu
San
etholedig
gwych
etholwyr
pell
cyngor
ethol
blwch-pleidleisio
UKIP
cyfreithiau
cyfraith
Ewrop
aelodau
cynigion
hawl
Cymreig
democratiaeth
pobl
awdurdodau
llywodraeth
swyddogol
byrddau
newid
Cymru
refferendwm
Prydain
gorfodi
arfaethedig
UE
erioed
Cynulliad
ymddiriedolaethau
rhydd
deddfwriaethol
cyhoeddus
llywodraethu
masnach
adnewyddu
rheoli
hunain
biwrocratiaid
chwyldro
ymddiried
gwir
Comisariaid
gwasanaethau
adfywio
Steffan

Neges oddi wrth Nigel Farage ASE, Arweinydd UKIP

Pŵer i'r bobl leol

PLAID Annibyniaeth y DU yw'r unig blaid sy'n hyrwyddo democratiaeth bellach. Dim ond UKIP, o blith y pleidiau gwleidyddol o ddifrif, sy'n dweud mai dim ond y ni, pobl Prydain, neu'r rheiny rydym ni'n eu hethol, ddylai wneud ein cyfreithiau neu ein trethu.

Dim ond UKIP sy'n ymddiried ym mhobl Cymru a Phrydain i arfer hawl newydd i fynnu refferendwm deddfwriaethol ar unrhyw gyfraith, boed yn un sy'n bodoli neu'n un arfaethedig. Bydd y rheiny rydym ni'n eu hethol yn rhwym i ganlyniad unrhyw refferendwm. Y ni, y bobl, fydd yn rheoli unwaith eto. Dim ond UKIP sy'n cyfaddef na all gwleidyddwyr blesio pawb. Ond gallwn ni o leiaf ymgynghori â phawb. Gallwn o leiaf fod yn rhwym i ewyllys pobl. Dyna ddiben refferenda deddfwriaethol UKIP. Dyna ddiben democratiaeth. Mae ein cynigion i adnewyddu ac adfywio democratiaeth Prydain yn chwyldro, dim llai. Bwriad y chwyldro hwnnw yw rhoi'r holl bŵer gwleidyddol gwirioneddol lle y dylai fod – â chi.

Pa ffordd bynnag y byddwch chi'n defnyddio'ch pleidlais gyntaf yn etholiadau Cynulliad Cymru, defnyddiwch eich ail bleidlais neu'ch pleidlais ranbarthol i adennill democratiaeth Prydain oddi wrth y Comisariaid sydd heb eu hethol ym Mrwsel; i ddod â gwir ddemocratiaeth uniongyrchol i Gymru; i gael ASau Cymreig San Steffan i dreulio un wythnos y mis yng Nghymru yn lle bod ag aelodau o Gynulliad Cymru; ac i gyflwyno awdurdodau heddlu a byrddau iechyd etholedig yng Nghymru er mwyn rhoi'r bobl lle y dylent fod – yn rheoli ein gwasanaethau cyhoeddus gwych.

Heddiw, mae llywodraeth yng Nghymru a ledled y DU yn fwyfwy pell oddi wrth yr etholwyr. Rydym ni eisiau newid hynny. Rydym ni eisiau i Brydain ddod allan o'r UE annemocrataidd, ond cadw masnach rydd ag ef, fel ein bod ni, y bobl, yn gallu llywodraethu ein hunain eto drwy gyfrwng y blwch pleidleisio. Nid yw'n gas gennym ni Ewrop: rydym ni'n caru democratiaeth. Rydym ni eisiau i'n Teyrnas Unedig, cenedl Cymru a'n cynghorau lleol redeg eu materion eu hunain heb ymyrraeth biwrocratiaid pell sydd heb eu hethol ac sydd â fawr o ddealltwriaeth o anghenion a gobeithion pobl Cymru.

Yn ôl amcangyfrif swyddogol Llywodraeth yr Almaen, mae'r UE yn gorfodi pum allan o bob chwe chyfraith sy'n cael eu pasio yn Ewrop arnom ni, sef cyfreithiau gan Gomisariaid a biwrocratiaid ym Mrwsel na wnaethom ni, pobl Ewrop, eu hethol. Polisi swyddogol UKIP yw y bydd chwech o bob chwe chyfraith a fydd yn cael eu pasio ym Mhrydain ar gyfer Prydeinwyr ac yng Nghymru ar gyfer y Cymry'n cael eu pasio gennym ni, neu gan y rheiny y byddwn ni'n eu hethol, ac nid gan unrhyw un arall.

Rydym ni'n falch o fod yn Brydeinig, a hefyd yn falch o'n hunaniaethau cenedlaethol yn y DU. Mae UKIP o'r farn bod pedair colofn fawr ein Teyrnas Unedig yn gweithio'n well gyda'i gilydd nag y byddent ar wahân, ac yn gweithio gorau oll pan mae'r bobl yn eu rheoli. Rydym ni'n cymeradwyo'r maniffesto di-lol, democrataidd, rhesymol, radical, byr hwn i chi, y bobl.

Nigel Farage ASE

Democratiaeth yn gyntaf. Rheolaeth i'r bobl

Byddwn ni –

- Yn adnewyddu Cynulliad Cymru, ond ar ffurf lai costus o lawer
- Yn cael gwared ag Aelodau Cynulliad, sy'n cael eu talu gormod ond sydd heb ddigon i'w wneud
- Yn cael ASau Cymreig San Steffan i'w disodli, gan gyfarfod un wythnos y mis yng Nghymru
- Yn adfywio ein democratiaeth â refferenda deddfwriaethol cyfrwymol
- Yn adleoli biliynau o arian yr UE, a fydd wedi'i arbed, i Gymru a'i phobl
- Yn ailfuddsoddi mewn gwasanaethau amddiffyn, ynni, amddiffynfeydd llifogydd ac arfordiroedd a thrafnidiaeth
- Yn tynnu allan o'r UE ond yn cadw masnach rydd ag ef
- Yn adfer £48 miliwn y dydd trwy adael yr UE
- Yn rhyddhau busnesau Cymru a'n heconomi o fiwrocratiaeth Brwsel
- Yn galw am ethol pob bwrdd iechyd, heddlu ac addysg yng Nghymru
- Yn dychwelyd rheolaeth ar ein gwasanaethau cyhoeddus gwych i'n pobl wych
- Yn diddymu Deddf Hawliau Dynol Ewrop
- Yn cael Mesur Hawliau Prydain i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol
- Yn diddymu Gorchymyn Ymchwiliadau a Gwarant Arestio Ewrop
- Yn adfer democratiaeth Prydain i bobl Prydain

Yr economi: yn erbyn trethi, o blaid swyddi

Byddwn ni –

- Yn cyflwyno Treth Safonol syml i ddisodli treth incwm annheg a chostus
- Yn cael gwared fesul cam â chyfraniadau Yswiriant Gwladol, sef treth ar swyddi
- Yn rhyddhau pob busnes, yn fach a mawr, o fynydd biwrocratiaeth yr UE
- Yn buddsoddi arian yr UE, a fydd wedi'i arbed, i helpu i greu swyddi medrus yng Nghymru
- Yn helpu busnesau Cymru i gyrchu marchnadoedd i werthu iddynt yn y wlad hon ac i allforio iddynt

Mewnfudo: Prydain dros Brydeinwyr yn gyntaf

Byddwn ni –

- Yn dod â mewnfudo torfol y blaid Lafur i ben; gwnaethon nhw ganiatáu i 3 miliwn o bobl ddod i mewn dros 13 o flynyddoedd
- Yn rhewi anheddu parhaol am bum mlynedd i roi trefn ar y system
- Yn cynyddu staff yr Asiantaeth Ffiniau fel bo angen i reoli mewnfudo
- Yn cyflwyno dulliau llym o reoli fisâu
- Yn derbyn gweithwyr allweddol yn unig, am gyfnodau penodol yn unig
- Yn alltudio mewnfudwyr anghyfreithlon a throseddwyr tramor
- Yn cyflwyno'r holl gyfathrebiadau swyddogol yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig
- Yn rhoi'r gorau i waith y Wladwriaeth yn hybu amlddiwylliannaeth. Prydeinwyr ydym ni

Trosedd a chosb: dim mwy o fod yn feddal

Byddwn ni –

- Yn cyflwyno awdurdodau heddlu etholedig, i osod nodau ar gyfer yr heddlu
- Yn grymuso awdurdodau heddlu i gyflogi a diswyddo Prif Gwnstabliaid

- Yn sicrhau bod yna ddigon o garchardai i gadw troseddwyr dan glo
- Yn gwrthod yr hawl i bleidleisio i bob carcharor
- Yn brwydro yn erbyn gyrfa o droseddu â rheol lle bydd tair euogfarn yn golygu dedfryd lem iawn
- Yn gwneud i ddedfrydau olygu beth maent yn ei ddweud. Bydd am oes yn golygu am oes; ni fydd 6 mis yn golygu 3 wythnos
- Yn anfon troseddwyr ifanc i wersyll ymarfer corff dwys i'w cael i gefnu ar droseddu
- Yn diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol er mwyn i ni allu alltudio eithafwyr tramor

Addysg: rhoi disgyblion a rhieni'n gyntaf

Byddwn ni –

- Yn cynyddu £600 fesul disgybl yng nghyllidebau ysgolion Cymru i gyfateb i rai Lloegr
- Yn galw ar ysgolion i addysgu darllen, ysgrifennu a rhifyddeg i safon dderbyniol i bob disgybl
- Yn sicrhau cyn lleied o ymyrraeth y llywodraeth ganolog yng ngwaith athrawon
- Yn cefnogi athrawon wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell ddosbarth
- Yn diogelu athrawon rhag cyhuddiadau maleisus
- Ddim yn caniatáu uno dosbarthiadau chwech oni bai bod y mwyafrif o'r rhieni o blaid hynny
- Yn cadw pob ysgol gynradd sydd ag o leiaf 20 o ddisgyblion ar agor
- Yn rhoi'r hawl i rieni ddewis ysgolion i'w plant
- Yn ehangu cyfleoedd mewn hyfforddiant galwedigaethol ac addysg oedolion

Iechyd: rhoi gweithwyr proffesiynol a'r bobl wrth y llyw

Byddwn ni –

- Yn cyflwyno ethol byrddau iechyd ledled Cymru
- Yn cadw gwasanaethau'r GIG yn rhad ac am ddim ym man eu defnyddio
- Yn dod â 'thwristiaeth iechyd" i ben yng Nghymru
- Yn rhoi meddygon a metronau wrth y llyw, yn lle gwleidyddion neu fiwrocratiaid
- Yn rhoi cyfrifoldeb i fetronau am gadw wardiau ysbytai'n lân
- Yn agor meddygfeydd fin nos ac ar ddydd Sadwrn
- Yn cefnogi'r rheiny sy'n gofalu am yr henoed a phobl â salwch tymor hir yn eu cartref
- Yn grymuso ysbytai i hyfforddi mwy o nyrsys
- Yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff nyrsio o dramor

Llywodraeth leol: pŵer i'r bobl

Byddwn ni –

- Yn gadael i'r bobl benderfynu ar faterion lleol trwy alw am refferenda cyfrwymol
- Yn cyflwyno ethol awdurdodau heddlu ledled Cymru
- Yn cael gwared â Llywodraeth ar ffurf cabinet
- Yn rhoi'r gorau i gyfreithiau a rheoliadau'r UE sy'n costio miliynau i gydymffurfio â nhw
- Yn rhannu â threthdalwyr yr arbedion o beidio â gwario ar reoliadau trwy gwtogi ar y dreth gyngor
- Yn cyfyngu cyflog pob gweithiwr cyngor i uchafswm o £75,000 y flwyddyn
- Yn cael treth ar werthiannau lleol i ddisodli TAW
- Yn rhoi mwy o reolaeth ariannol i gynghorau trwy roi cyfran o'r dreth ar werthiannau iddynt

Ffermio a physgota: dod â rheolaeth yn ôl i Gymru

Byddwn ni –

- Yn rhyddhau ffermwyr Cymru rhag rheolau, cyfarwyddebau a chwotâu y mae'r UE yn gorfodi arnynt

ombwdsmon
ynni
cyflenwad
cyfarwyddebau
trydan
costus
GIG
gwladoswyddi
rheolau
athrawon
safonol
disgyblion
gorsafoedd
meddygon
mewnfudwyr
addysg
trosedd
tramor
yswiriant
meddygfeydd
cynhesu
ysgolion
Cymraeg
ysbytai
cosb
Saesneg
mewnfudo
gwynt
annheg
incwm
gwaith
economi
dedfrydau
system
byd-eang
grymuso
hawliau
syml
iechyd
diogelu
UE
cynradd
anghyfreithlon
treth
gyntaf
cwotâu
pŵer
pysgodfeydd
metronau
Cymru
Prydain
heddlu
ffermwyr
asiantaeth
anheddu
alltudio
niwclear
llyw
troseddwyr
ffiniau
rhyddhau
mesur
rhieni

- Yn gwarantu na fydd Taliadau Sengl yn cael eu colli'n sydyn wrth adael yr UE
- Yn cyflwyno Ombwdsmon Archfarchnadoedd i gael prisiau teg i ffermwyr
- Yn ailfynnu ein rheolaeth ar ein dyfroedd i adfer diwydiant pysgota Cymru

Yr amgylchedd: dim mwy o ffermydd gwynt ar ein bryniau

Byddwn ni –

- Yn gwahardd unrhyw ffermydd gwynt ar y tir yn y dyfodol ar y sail eu bod yn niweidio'r amgylchedd
- Yn sicrhau bod yr holl ffermydd gwynt sy'n bodoli ar y tir yn gorfod dilyn gweithdrefnau cynllunio lleol
- Yn galw ar berchnogion ffermydd gwynt y mae pobl leol yn eu herbyn i'w dymchwel
- Yn tynnu cymorthdaliadau'n ôl o weithgareddau pŵer gwynt, tonau a haul ar y sail eu bod yn amherthnasol i'n hinsawdd
- Yn adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear i ddiogelu cyflenwad trydan Cymru
- Yn ailfuddsoddi yng nglo Cymru i'w ddefnyddio mewn gweithfeydd pŵer newydd, sy'n llosgi glo yn lanach
- Yn sefydlu Comisiwn Brenhinol i ymchwilio i "gynhesu byd-eang"
- Yn cau'r Adran Newid yn yr Hinsawdd, gan arbed hyd at £18 biliwn y flwyddyn

OND, beth bynnag rydym ni, y bobl, ei eisiau neu'n ei benderfynu...

hoffai UKIP ddwyn sylw at y ffaith mai biwrocratiaid yr UE heb eu hethol sy'n gosod polisi cyffredinol ym meysydd –

- Materion tramor
- Iechyd cyhoeddus
- Cyfiawnder
- Cyflogaeth
- Yr heddlu
- Materion cymdeithasol
- Mewnfudo
- Materion economaidd
- Trafnidiaeth
- Ynni
- Yr amgylchedd
- Ffermio
- Pysgodfeydd
- Gorfodi'r gyfraith

Ac ni fydd hynny'n ddigon iddyn Nhw. Dyna pam ein bod ni eisiau ein democratiaeth genedlaethol a lleol yn ôl. Os ydych chi eisiau hynny hefyd, byddwch yn falch o bleidleisio dros UKIP.

Wedi'i argraffu gan APC Printers, y tu cefn i Dŷ Crownford, Stad Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun CF44 9UP.
Cyhoeddwyd a hybwyd gan UKIP Cymru, 29 Ponc Y Fron, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NY

0800 587 6 587 **ukipwales.org**

UK Independence Party, Lexdrum House, Unit 1, King Charles Business Park, Heathfield, Newton Abbot, Devon TQ12 6UT

LMW32011